# Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth

## Datganiad o'r Egwyddorion Buddsoddi - Tachwedd 2023

### 1. Rhagarweiniad

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth ("y Cynllun") wedi llunio'r Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi ("y Datganiad") er mwyn cofnodi'r egwyddorion a arddelir gan yr Ymddiriedolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau mewn cysylltiad â gwaith rheoli asedau'r Cynllun. Nod y Datganiad yw bodloni gofynion Deddf Pensiynau 1995 ("y Ddeddf") a'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol ar ôl y Ddeddf honno. Mae manylion trefniadau buddsoddi'r Cynllun i'w gweld yn Nogfen Gweithredu'r Polisi Buddsoddi (DGPB), sydd ar gael i aelodau'r Cynllun ar gais.

Wrth baratoi'r Datganiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cael cyngor proffesiynol ysgrifenedig gan Ymgynghorydd Buddsoddi'r Cynllun, sef Mercer Limited. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Ymgynghorydd Buddsoddi yn bodloni gofynion y Ddeddf a'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol ar ôl y Ddeddf honno. O ran materion lle y gallai'r polisi buddsoddi effeithio ar bolisi ariannu'r Cynllun, cafwyd cyngor hefyd gan Actiwari'r Cynllun.
Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael cyngor tebyg (gan gynnwys cyngor actiwaraidd os bydd ei angen) ar bob achlysur pan fydd y Datganiad hwn yn cael ei adolygu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i gynnal perthynas waith dda â Noddwr y Cynllun, sef Prifysgol Aberystwyth, a byddant yn trafod â Noddwr y Cynllun unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Datganiad. Serch hynny, ymrwymiadau ymddiriedol yr Ymddiriedolwyr i aelodau'r Cynllun fyddai'n drech na dymuniadau Noddwr y Cynllun, pe byddai byth unrhyw wrthdaro rhyngddynt. Yr Ymddiriedolwyr sydd wedi gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, ac maent wedi cael cyngor ysgrifenedig gan Ymgynghorydd Buddsoddi'r Cynllun.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad hwn mewn ymateb i unrhyw newidiadau o sylwedd i unrhyw agwedd ar y Cynllun, ei rwymedigaethau, ei gyllid ac i agwedd Ymddiriedolwyr a Noddwr y Cynllun tuag at risg, sydd yn ei farn ef yn berthnasol i'r Datganiad. Bydd yr adolygiadau hynny yn digwydd bob yn dair blynedd neu'n amlach.

### 2. Y Broses ar gyfer Dewis Buddsoddiadau

Gellir rhannu gwaith gofalu am asedau'r Cynllun yn dri maes cyfrifoldeb, sef:

I. Rheolaeth strategol ar asedau'r Cynllun (Rhannau 3 i 7) sydd yn gyfrifoldeb yr Ymddiriedolwyr, yn y bôn, ac sy'n cael ei gyrru gan amcanion buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.

II. Gwaith rheoli'r asedau hynny o ddydd i ddydd (Adran 8 a'r DGPB).

III. Monitro parhaus ar berfformiad y rheolwyr buddsoddi penodedig yn ôl y meincnodau a bennwyd ymlaen llaw - Mae'r ymddiriedolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad asedau'r Cynllun oddi wrth y rheolwyr buddsoddi a'r Ymgynghorydd Buddsoddi.

Wrth bennu a yw buddsoddiad yn briodol i'r Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr yn gofyn am gyngor ysgrifenedig yr Ymgynghorydd Buddsoddi sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, â chymwysterau addas i ddarparu cyngor o'r fath, yn unol â gofynion y Ddeddf, a bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y cyngor hwnnw.

## 3. Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau i gloriannu'n feirniadol y cyngor maent yn ei gael ynghylch dyraniadau asedau strategol y Cynllun a'i reolwyr buddsoddi, ac i benderfynu ar ddulliau effeithiol o ddyrannu asedau strategol ac ar strwythur rheolwyr buddsoddi i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Mercer yn ymgynghorwyr actiwaraidd a buddsoddi. Mae'r Ymddiriedolwyr yn asesu perfformiad Mercer ym mhob rôl yn rheolaidd.

Nid yw'r cytundebau rhwng yr Ymddiriedolwyr, y rheolwyr buddsoddi a Mercer yn rhan o'r Datganiad hwn, ond maent wedi'u cynnwys mewn dogfennau ar wahân.

## 4. Amcanion Buddsoddi

Amcan yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi asedau'r Cynllun yn y modd sy'n bodloni buddiannau'r aelodau a'r buddiolwyr orau. O fewn y fframwaith hwnnw, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar nifer o amcanion a fydd yn helpu i'w harwain yn eu gwaith wrth reoli asedau'n strategol, a rheoli'r amryw risgiau y mae'r Cynllun yn agored iddynt.

Arweinir cynllun buddsoddi'r Ymddiriedolwyr gan eu nod o gynhyrchu adenillion o'r buddsoddiadau dros y tymor hir, sy'n cyd-fynd â'r tybiaethau actiwaraidd i'r hirdymor a fu'n sail i gytundeb y cynllun cyllido. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon cymryd rhywfaint o risg er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ecwitïau, asedau amgen a bondiau anllywodraethol, a thrwy ddefnyddio rheolwyr cronfeydd gweithredol i reoli rhai o asedau'r Cynllun. Mae gallu a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr i gymryd risg o'r fath yn amodol ar yr egwyddorion a roddir yn Rhan 5 o'r Datganiad hwn.

## 5. Rheoli a Mesur Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod nad yw'n bosib o reidrwydd, nac yn ddymunol hyd yn oed, ddewis buddsoddiadau sy'n cyd-fynd yn union â'r amcangyfrif o rwymedigaethau'r Cynllun. O gofio ymrwymiad parhaol Noddwr y Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr credu y gellir cymryd rhywfaint o risg fuddsoddi, gan ddisgwyl y cynhyrchir adenillion sy'n uwch na'r rhai a geid pe dilynid strategaeth y risg isaf (safbwynt sydd hefyd yn dderbyniol i Noddwr y Cynllun).

Y mae amryw risgiau, y mae unrhyw gynllun pensiwn yn agored iddynt, ac sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr yn berthnasol i'r Cynllun o safbwynt ariannol. Yn unol â hynny, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried y risgiau isod dros oes ddisgwyliedig y Cynllun:

- Risg y bydd lefel ariannu'r Cynllun yn dirywio; gallai hynny ddigwydd oherwydd bod disgwyliadau'r gyfradd log a chwyddiant yn newid, sy'n cael eu rheoli gan y Cynllun drwy fuddsoddi mewn asedau sy'n diogelu cyfran o sensitifrwydd rhwymedigaethau'r Cynllun o safbwynt y gyfradd log a chwyddiant.
- Anwaladrwydd o ran lefel ariannu'r Cynllun, a allai arwain at anwaladrwydd yng nghyfradd gyfrannu Noddwr y Cynllun yn y tymor byr.
- Risg y bydd cryfder Noddwr y Cynllun yn dirywio.
- Risg y byddai prinder o asedau o'u cymharu â'r rhwymedigaethau, yn ôl y ffigurau pe bai'r Cynllun yn cael ei ddirwyn i ben.
- Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gallai risgiau godi o ddiffyg amrywiaeth yn y buddsoddiadau. Yn amodol ar reoli'r risg sy'n dod o'r gwahaniaeth rhwng yr asedau a'r rhwymedigaethau, nod yr Ymddiriedolwyr yw sicrhau bod y polisi dyrannu sydd ar waith yn arwain at ddigon o amrywiaeth yn y portffolio. Serch hynny, mae amrywio'r risg ar draws ffynonellau lluosog yn gyfyngedig gan allu'r Ymddiriedolwyr i weithredu buddsoddiadau'r Cynllun a'u monitro'n effeithiol.
- Risg na fydd y rheolaeth o ddydd i ddydd ar yr asedau yn cyflawni'r cyfraddau adennill o'r buddsoddiadau a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod defnyddio rheolaeth weithredol yn golygu risg o'r fath. Serch hynny, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod y risg honno yn cael ei gwrthbwyso gan yr enillion posib o reolaeth weithredol lwyddiannus mewn dosbarthiadau penodol o asedau.
- Risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol, fel y'u disgrifir yn Rhan 10.
- Risg na fyddai modd cynnal y lefelau targed o ymddiogelu rhwymedigaethau wrth i'r arenillion gynyddu, gan na fyddai digon o asedau ar gael i fodloni'r galwadau cyfochrog sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau'r Cynllun mewn cronfeydd buddsoddi a yrrir gan rwymedigaethau ac sy'n defnyddio trosoledd o fewn yr amserlenni gofynnol.
  Mae'r Ymddiriedolwyr yn anelu at liniaru'r risg honno drwy fframwaith rheoli cyfochrog, lle mae'r rheolwr yn y Cynllun sy'n gyfrifol am y cronfeydd buddsoddi hyn a yrrir gan rwymedigaethau yn gallu dod o hyd i arian parod i fodloni'r galwadau cyfochrog trwy werthu asedau eraill a reolir, yn unol â rhaeadr gyfochrog y cytunwyd arni ymlaen llaw. Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro dyraniad asedau'r Cynllun a'r sefyllfa gyfochrog yn rheolaidd a byddant yn gweithredu i ychwanegu at lefel yr asedau yn y rhaeadr gyfochrog, os yw'n briodol.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cael cyngor ar y materion hyn gan Ymgynghorydd Buddsoddi ac Actiwaraidd y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi cael trafodaethau ar y mater â Noddwr y Cynllun.

Mae parodrwydd yr Ymddiriedolwyr i gymryd risg fuddsoddi yn ddibynnol ar barhad cryfder ariannol Noddwr y Cynllun a'i barodrwydd yntau i gyfrannu at y Cynllun yn briodol. Mae cryfder ariannol ac ymroddiad canfyddedig Noddwr y Cynllun yn cael eu monitro a bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r lefel o risg fuddsoddi o'i chymharu â'r rhwymedigaethau pe bai'r naill neu'r llall yn dirywio.

Mae cyfradd y risg fuddsoddi y mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ei chymryd hefyd yn dibynnu ar sefyllfa ariannol y Cynllun. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro lefel ariannu'r Cynllun, yn ogystal â phroffil ei rwymedigaethau, er mwyn newid yr amcan buddsoddi, lefel y risg a oddefir neu darged yr adenillion pe bai'r naill neu'r llall yn newid yn sylweddol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod risgiau eraill y mae'r Cynllun yn agored iddynt ac nad yw’n bosib monitro’r holl risgiau a ddisgrifir uchod bob amser. Serch hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i gymryd y risgiau hynny y maent yn disgwyl cael eu gwobrwyo amdanynt dros amser, ar ffurf adenillion dros ben, mewn modd sy'n amrywio'r risgiau hynny. Mae’r cyfuniad o asedau a dulliau o reoli buddsoddiadau sy'n deillio o hynny wedi'i ddewis i gyd-fynd â'r amcanion buddsoddi, y lefel o risg a oddefir, a'r targed o ran adenillion.

## 6. Llunio Portffolio

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r fframwaith rheoli isod wrth lunio strwythur i
fuddsoddiadau'r Cynllun:

- Ar lefel y Cynllun cyfan, ac o fewn y rheolwyr buddsoddi unigol a benodir, dylid amrywio'r buddsoddiadau'n eang er mwyn sicrhau nad yw'r risg yn cronni ar unrhyw fuddsoddiad unigol nac mewn buddsoddiadau lle mai'r un cyhoeddwr sy'n gysylltiedig â sawl buddsoddiad. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i fuddsoddiadau yn nyled Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Caniateir buddsoddiadau mewn deilliadau naill ai'n uniongyrchol neu o fewn cronfeydd cyfun. Yn gyffredinol ni wneir buddsoddiadau o'r fath heblaw er mwyn lleihau risgiau'r Cynllun lle nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau, neu er mwyn hwyluso rheolaeth effeithlon ar y portffolio.

## 7. Strategaeth Buddsoddi

O gofio'r amcanion buddsoddi, mae’r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r strategaeth fuddsoddi a ddisgrifir yn y DGPB. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod y risg fuddsoddi sy'n codi o'r strategaeth fuddsoddi, wedi'i chyfuno â'r risgiau sy'n codi o reolaeth weithredol, yn cyd-fynd â lefel y risg yr anelir ati.

## 8. Rheoli'r Asedau o Ddydd i Ddydd

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo gwaith rheoli'r asedau o ddydd i ddydd i reolwyr buddsoddi. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd camau i sicrhau eu bod wedi'u bodloni bod gan y rheolwyr buddsoddi'r wybodaeth a'r profiad priodol ar gyfer rheoli buddsoddiadau'r Cynllun a'u bod yn gwneud y gwaith hwnnw mewn modd cymwys.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu buddsoddiadau'r Cynllun yn rheolaidd i weld a ydynt yn dal i fod yn addas, ac mae hynny'n cynnwys y rheolwyr buddsoddi a benodwyd i'r Cynllun. Ceir manylion y rheolwyr a benodwyd yn y DGPB.

## 9. Gwireddu Buddsoddiadau

Mae polisi gwireddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolwyr wedi'i nodi yn Nogfen Gweithredu'r Polisi Buddsoddi.

## 10. Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, Stiwardiaeth a Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn y gallai ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu gael effaith o sylwedd ar ganlyniadau o ran risg ac adenillion y buddsoddiadau, ac y gall stiwardiaeth dda greu a chadw gwerth i gwmnïau a marchnadoedd yn eu crynswth. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn cydnabod bod materion cynaliadwyedd yn y tymor hir, a newid yn yr hinsawdd yn benodol, yn creu risg a chyfleoedd a allai, yn fwyfwy, olygu bod angen rhoi ystyriaeth benodol iddynt.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llwyr i'r rheolwyr buddsoddi penodedig o ran cloriannu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan gynnwys ystyriaethau ar newid yn yr hinsawdd, ac wrth arfer eu hawliau pleidleisio a'r ymrwymiadau stiwardiaeth sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau, yn unol â'u polisïau llywodraethu corfforaethol eu hun a'r ymarfer gorau presennol, gan gynnwys Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a Chod Stewardiaeth y DU. Dyma flaenoriaethau stiwardiaeth allweddol yr Ymddiriedolwyr:

- Newid yn yr hinsawdd – er enghraifft, pleidlais sy'n gofyn am gyhoeddi strategaeth sy'n cyd-fynd â Chytundeb Paris.
- Bioamrywiaeth – er enghraifft, pleidlais i ddylanwadu ar gwmni i fynd i'r afael ag effeithiau colli bioamrywiaeth.
- Estyn allan i'r gymuned – er enghraifft, pleidlais sy'n ymwneud â sut mae'r endid yn rhyngweithio â'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.
- Amrywioldeb ar y Bwrdd - er enghraifft, pleidlais yn mynd yn erbyn Cadeirydd y pwyllgor enwebu lle nad yw'r bwrdd yn ddigon amrywiol neu bleidlais yn erbyn cyfarwyddwr nad yw'n annibynnol.

Pennodd yr Ymddiriedolwyr y blaenoriaethau hynny ar sail eu credoau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan ystyried gwerthoedd, amcanion a thargedau cynaliadwyedd Noddwr y Cynllun. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau a gweithgareddau rhyngweithio cyswllt (lle bo'n briodol) y rheolwyr buddsoddi bob blwyddyn.

Rhesymeg strategol y gwahanol ddosbarthiadau o asedau sy'n helpu'r Ymddiriedolwyr i gyflawni amcanion a chyfyngiadau'r Cynllun yw'r prif ffactor sy'n gyrru strategaeth fuddsoddi'r Cynllun o hyd. Serch hynny, o fewn y cyd-destun hwn, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried yn fwyfwy sut mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, newid yn yr hinsawdd a stiwardiaeth yn cael eu hintegreiddio o fewn y prosesau buddsoddi wrth benodi rheolwyr buddsoddi newydd ac wrth fonitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r monitro hwn yn cael ei wneud yn rheolaidd ac yn cael ei gofnodi mewn dogfennaeth yn achlysurol.

Nid yw safbwyntiau'r aelodau yn cael eu hystyried yn uniongyrchol wrth ddethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn rheolwyr buddsoddi sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig lle bo hynny'n

bosib er mwyn gweithredu'r strategaeth y dymunir ei chyflawni. Ar adeg ysgrifennu'r polisi hwn, mae pob un o reolwyr presennol y Cynllun wedi eu llofnodi.

## 11. Monitro'r Rheolwr Buddsoddi, yr Ymgynghorwyr a'r Prosesau Penderfynu

Yn unol â rhannau uchod o'r Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi, penodir rheolwyr buddsoddi ar sail eu gallu ac felly, ar sail y tebygolrwydd tybiedig y byddant yn llwyddo i gael yr adenillion disgwyliedig a'r nodweddion risg sy'n ofynnol i'r dosbarth o asedau y dewiswyd hwy ar ei gyfer.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn dibynnu ar eu hymgynghorydd buddsoddi i ddarparu asesiad o allu rheolwr yn y dyfodol i gyflawni ei amcanion datganedig dros gylch gyfan y farchnad. Bydd y farn honno yn cael ei seilio ar sut mae'r ymgynghorydd yn asesu'r rheolwr o safbwynt cynhyrchu syniadau, llunio portffolio, gweithredu a rheoli busnes (ymhlith pethau eraill), mewn cysylltiad â'r gronfa fuddsoddi benodol y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddi. Mae’r asesiadau gan yr ymgynghorydd, sy’n dod o'r ymchwil i'r rheolwyr, yn cynorthwyo â'r ddyletswydd diwydrwydd dyledus ac â holi rheolwyr yn ystod y cyflwyniadau a roddir i'r Ymddiriedolwyr; fe'u defnyddir hefyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch ddethol, cadw a gwireddu penodiadau rheolwyr.

Os bydd yr amcan buddsoddi i gronfa rheolwr penodol yn newid, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r penodiad i'r gronfa honno i sicrhau ei fod yn dal i fod yn briodol ac yn gyson ag amcanion buddsoddi ehangach yr Ymddiriedolwyr. Mae rhai penodiadau yn cael eu rheoli'n weithredol ac mae'r rheolwyr yn cael eu cymell drwy daliadau a thargedau perfformio (adolygir penodiadau os ceir cyfnodau cyson o danberfformio). Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu pa mor briodol yw defnyddio cronfeydd a reolir yn weithredol (ar sail y categorïau o asedau) yn achlysurol.

Gan fod yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cyfryngau buddsoddi cyfun, derbyniant na allant bennu proffil risgiau a thargedau adenillion y rheolwr, ond maent yn credu ei bod yn bosib dewis mandadau priodol i gyd-fynd â'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol.

Bydd yr Ymgynghorwyr hefyd yn ystyried asesiad yr ymgynghorydd buddsoddi ar sut mae pob rheolwr buddsoddi yn ymgorffori materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ei broses fuddsoddi a sut mae syniadaeth buddsoddi cyfrifol y rheolwr yn cyd-fynd â pholisi buddsoddi cyfrifol yr Ymddiriedolwyr ac â’u blaenoriaethau stiwardiaeth allweddol. Mae hynny'n cynnwys polisi'r rheolwyr buddsoddi ynghylch pleidleisio a rhyngweithio. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn defnyddio'r asesiad hwn wrth wneud penderfyniadau ynghylch ddethol, cadw a gwireddu penodiadau rheolwyr.

Mae'r rheolwyr buddsoddi yn ymwybodol mai ar sail eu llwyddiant wrth wireddu'r mandad y penodwyd hwy i'w reoli y mae parhad eu penodiadau yn dibynnu. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn anfodlon, efallai y byddant yn ceisio penodi rheolwr newydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael adroddiadau ar berfformiadau rheolwyr buddsoddi bob chwarter, sy'n rhoi gwybodaeth am eu perfformiad dros 3 mis, 1 flwyddyn, 3 blynedd ac ers cychwyn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r perfformiad ei hun, y perfformiad cymharol yn ôl indecs priodol a ddefnyddir fel meincnod, ac yn ôl y targed a roddwyd gan y rheolwr i'w berfformiad ei hun (dros y cyfnod perthnasol) ar ôl tynnu'r ffioedd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn canolbwyntio ar berfformiad dros y

tymor hir ond efallai y byddant yn rhoi rheolwr 'dan wyliadwriaeth' os oes pryderon ynghylch y perfformiad yn y tymor byr.

Fel rheol mae'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu talu drwy ffi a gyfrifir fel canran o'r asedau a reolir. Mae’n bosib y bydd ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad

hefyd, er bod yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod trefniadau cyfraddau trothwy ar waith er mwyn osgoi talu ffioedd ychwanegol yn ystod cyfnodau hirion o danberfformio.

Os nad yw rheolwr yn cyrraedd yr amcanion perfformio, neu os yw'r amcanion buddsoddi i'w fandad wedi newid, gall yr Ymddiriedolwyr ofyn i'r rheolwr adolygu ei ffioedd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gofyn i'r rheolwyr buddsoddi gynnwys trosiant y portffolio a chostau trosiant yn eu cyflwyniadau a'u hadroddiadau i'r Ymddiriedolwyr.

Buddsoddwyr hirdymor yw'r Ymddiriedolwyr ac nid ydynt yn awyddus i newid y trefniadau buddsoddi yn aml. Does dim cyfnod wedi'i osod ar gyfer cyfnodau penodiadau'r rheolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cadw rheolwyr buddsoddi, heblaw:

- bod newid strategol i'r strategaeth gyffredinol sy'n golygu na fydd y Cynllun bellach ar agor i'r dosbarth hwnnw o ased neu reolwr;
- bod penodiad y rheolwr yn cael ei adolygu ac mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu dod â'r penodiad i ben er mwyn gwneud penodiad mwy addas.

## 12. Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau

Nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi gosod cyfyngiadau ar y buddsoddiadau a wneir drwy'r rheolwyr buddsoddi penodedig o ran unrhyw gynnyrch na gweithgareddau penodol, ond gallent ystyried gwneud hynny yn y dyfodol.

## 13. Cydymffurfio â'r Datganiad hwn ac Adolygu'r Datganiad

Yr Ymddiriedolwyr fydd yn monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r Datganiad hwn.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad hwn yn rheolaidd, o leiaf unwaith bob yn dair blynedd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad hwn mewn ymateb i unrhyw newidiadau o sylwedd i unrhyw agwedd ar y Cynllun, ei rwymedigaethau, ei gyllid ac i agwedd Ymddiriedolwyr a Noddwr y Cynllun tuag at risg, sydd ym marn yr Ymddiriedolwyr yn berthnasol i'r polisi buddsoddi datganedig. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei seilio ar gyngor buddsoddi arbenigol ac yn cael ei gynnal drwy ymgynghori â Noddwr y Cynllun.

**Llofnodwyd ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth.**

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________________

Enw: ______________________

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________________

Enw: ______________________